AGGCC
CSSIW
Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru
Care and Social Services Inspectorate Wales

Adroddiad Arolygu Gofal Plant am

Meithrinfa Ffalabalam Cyf

Hafod Elfyn
Penrhosgarnedd
Bangor
LL57 2BX

Dyddiad Cyhoeddi

29 Rhagfyr 2016

Llywodraeth Cymru © Hawlfraint y Goron 2016.
Cewch ddefnyddio ac ailddefnyddio'r wybodaeth sydd yn y cyhoeddiad hwn (ac eithrio logos) yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng, o dan delerau Trwydded Agored y Llywodraeth. Gellir gweld Trwydded Agored y Llywodraeth ar wefan yr Archifau Gwladol, neu gellwch ysgrifennu at The Information Policy Team, The National Archives, Kew, London, TW9 4DU, neu anfon e-bost at:psi@nationalarchives.gsi.gov.uk
Rhaid ichi atgynhyrchu ein deunydd yn fanwl gywir, a pheidio â'i ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol.

Disgrifiad o'r gwasanaeth

Mae Meithrinfa Ffalabalam wedi'i chofrestru i ddarparu gofal ar gyfer uchafswm o 116 o blant hyd at 12 oed. Darperir gofal o fewn pum uned: hyd at 84 o blant o dan dair oed yn Lili Lon, Beti Bwt, Deri Dando a Seren Siw, a hyd at 32 o blant rhwng tair oed ac 11 oed yng Nghlwb Ffrindiau Ffalabalam, sy'n glwb ar ôl yr ysgol.

Menna Jones a Bethan Griffiths yw'r unigolion cyfrifol a personau â gofal/arweinyddion wrth weithredu o ddydd i ddydd. Y Gymraeg yw prif iaith y gofal.

Crynodeb o'n canfyddiadau ni

1. Asesiad cyffredinol

Mae plant sy'n mynychu Meithrinfa Ffalabalam wedi ymgartrefu ac yn hapus yn eu chwarae a'u dysgu. Mae plant yn derbyn y gofal a sylw sydd eu hangen arnynt er mwyn ffynnu ac mae ymarferwyr yn gyfeillgar ac yn feithringar. Mae plant yn gallu datblygu eu galluoedd corfforol a deallusol trwy gael profiadau amrywiol ac ysgogol. Mae'r amgylchedd wedi'i ddylunio'n dda ac ynddo adnoddau addas y tu allan ac o dan do, ac mae'n ddiogel i blant. Mae Meithrinfa Ffalabalam yn cael ei rhedeg yn broffesiynol gan arweinwyr ac ymarferwyr sy'n brofiadol, yn gymwys, ac yn alluog o ran diwallu anghenion newidiol plant.

2. Gwelliannau

Mae Meithrinfa Ffalabalam wedi gwneud y gwelliannau canlynol:

- Mae wedi creu ardal chwarae feddal ar gyfer plant o dan ddwy flwydd oed.
- Mae dau ymarferydd wedi cwblhau eu cymhwyster NVQ Lefel 5 mewn gofal plant.
- Mae wedi creu system gwobrau cydnabod ar gyfer gweithwyr y mis.
- Mae wedi gosod system larwm dân newydd trwy'r adeilad cyfan.
- Mae wedi prynu crudiau ymadael mewn argyfwng.
- Mae wedi derbyn tystysgrif gan Fwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr (BIPBC) ar gyfer Arfer Gorau yn y Blynyddoedd Cynnar am greu bwydlenni bwyta'n iach.

3. Gofynion ac argymhellion

Ni nodwyd unrhyw feysydd o ddiffyg cydymffurfio yn ystod yr arolygiad hwn.

Trafodwyd argymhellion arfer da gyda'r arweinwyr.

1. Llesiant

Crynodeb

Mae plant yn profi amser cadarnhaol a phleserus yn y gwasanaeth ac mae eu hawliau'n cael eu parchu ac mae datblygiad yn cael ei annog. Mae gan y plant lais ac mae ymarferwyr yn gwrando arnynt. Maent yn teimlo wedi'u gwerthfawrogi ac yn teimlo'n ddiogel. Mae plant yn rhyngweithio'n dda gyda'i gilydd a chyda'r arweinwyr a'r ymarferwyr. Maent yn hapus ac yn brysur ac yn mwynhau dysgu trwy chwarae.

Ein canfyddiadau

1.1 I ba raddau mae gan y plant lais?

Mae gan y plant lais ac mae eu dewisiadau a'u penderfyniadau'n cael eu gwrando arnynt a'u hannog.

Dywedodd y rhan fwyaf o'r plant wrth ymarferwyr nad oeddent am chwarae gyda Play-Doh mwyach a'u bod am baentio yr Arth Pudsey ar blât papur yn barod ar gyfer Plant Mewn Angen. Cafodd plant eu hannog gan ymarferwyr i gasglu platiau papur yn barod ar gyfer paentio ac felly roedd dymuniadau a theimladau'r plant yn cael eu parchu. Fodd bynnag, nid oedd rhai o'r plant am baentio, a chawsant eu hannog gan yr ymarferwyr i chwarae â gweithgaredd o'u dewis. Trwy gydol yr arolygiad, o fewn pob ystafell chwarae, cafodd plant eu hannog i fynegi eu safbwyntiau a'u syniadau a chafodd y rhain eu hannog a'u parchu gan ymarferwyr.

Roedd plant yn gallu mynegi eu dymuniadau a'u teimladau'n llwyddiannus ac roeddent yn hyderus wrth siarad ag ymarferwyr gan eu bod yn gwybod y byddent yn cael eu cefnogi i gael eu deall. Roedd bron yr holl blant o deuluoedd Cymraeg eu hiaith ac roedd ymarferwyr yn cefnogi plant a oedd o gefndiroedd gwahanol i siarad a dysgu Cymraeg gyda nifer o eiriau ac ymadroddion yn cael eu cyfieithu o'r Saesneg i'r Gymraeg.

Mae gan y plant gyfleoedd i benderfynu ar yr hyn y maent am ei wneud, lle y maent am chwarae, a chyda phwy. Mae plant yn hapus ac yn hyderus wrth fynegi eu teimladau, gan wybod y bydd eu safbwyntiau'n cael eu gwrando arnynt ac yn cael eu gweithredu.

1.2 I ba raddau mae'r plant yn teimlo'n ddiogel ac yn hapus, a'u bod yn cael eu gwerthfawrogi?

Mae plant yn teimlo'n ddiogel ac yn hapus ym Meithrinfa Ffalabalam ac mae ganddynt berthnasau da gydag ymarferwyr a chyda'i gilydd.

Gwelsom nifer o blant yn gwahanu o'u rhieni ac roeddent yn ymgartrefu ac yn hapus ac yn gyfforddus yng ngofal eu hymarferwyr cyson a phenodedig. Roedd plant yn cael eu gwerthfawrogi gan inni weld eu bod yn cael eu siarad â nhw mewn modd tyner ac ar eu lefel a'u cam datblygu ieithyddol. Roedd plant yn hapus ac yn teimlo'n ddiogel gan fod ganddynt berthnasau da gydag ymarferwyr a chyda'i gilydd ac, o ganlyniad, gwnaethant fwynhau'r parhad gofal a bod yn gyfarwydd â'r bobl o'u cwmpas.

Roedd y plant yn profi ymdeimlad o berthyn a llwyddiant trwy weld eu gwaith crefft wedi'i arddangos ar waliau'r ystafelloedd chwarae. Yn ogystal, roedd ganddynt ymdeimlad o lesiant gan fod ymarferwyr wedi eu canmol trwy gydol y sesiwn am y gweithgareddau yr oeddent wedi ymgymryd â nhw.

Mae gan y plant berthnasau cadarn gyda'u cyfoedion a'u hymarferwyr.

1.3 Pa mor dda mae'r plant yn rhyngweithio?

Mae plant yn dechrau deall eu teimladau ac emosiynau eraill.

Gwelsom fod un plentyn am chwarae gyda thegan yr oedd plentyn arall yn chwarae ag ef ac roedd y ddau blentyn wedi'u cynhyrfu. Gwnaeth ymarferydd ymresymu gyda'r plant a defnyddio canmoliaeth a thechnegau tynnu sylw i'w cefnogi'n llwyddiannus i symud ymlaen â'u chwarae.

Caiff plant eu cefnogi yn eu rhyngweithiadau a'u hymddygiad.

1.4 I ba raddau mae'r plant yn mwynhau eu chwarae a'u dysgu?

Mae'r plant yn mwynhau eu chwarae a'u dysgu yn fawr iawn.

Gwelsom blant a oedd yn llawn gweithgarwch ac yn ymddiddori mewn darllen, paentio, chwarae bingo, a chael sesiynau darllen un wrth un gydag ymarferwyr. Gwelsom fod y plant ym mhob ystafell chwarae yn brysur ac yn ymgysylltu â gweithgareddau gydag anogaeth a goruchwyliaeth agos ymarferwyr. Roedd gan blant ddewis eang o gyfleoedd a gweithgareddau a oedd yn cefnogi eu dysgu a'u datblygiad.

Gwnaeth plant ddilyn trefn y gwasanaeth yn dda ac, o ganlyniad, roeddent yn teimlo'n ddiogel, yn hyderus ac yn barod i ddysgu. Roedd plant yn gryf eu cymhelliad ac yn ymgysylltu â'r chwarae, ac roedd ganddynt y gallu i ganolbwyntio am gyfnod da. Gwnaeth plant ddangos diddordeb mawr mewn llyfrau a straeon ac roeddent hefyd wedi'u hymgolli mewn canu hwiangerddi gyda'r gerddoriaeth gefndir. Roedd y geiriau'n eglur ac yn gryno, a oedd yn dangos bod arweinwyr ac ymarferwyr yn cymryd amser i gefnogi plant gyda dysgu hwiangerddi a chaneuon Cymraeg.

Mae plant yn ymddiddori yn eu chwarae a'u dysgu ac wedi'u hymgysylltu a'u cyffroi ganddynt.

1.5 Pa mor dda mae'r plant yn datblygu, yn dysgu ac yn dod yn annibynnol?

Mae'r plant yn datblygu ac yn dysgu i fod yn annibynnol.

Roedd y plant yn datblygu'n dda ac yn gwneud cynnydd da wrth ddod yn annibynnol gan fod ganddynt ddigonedd o brofiadau dysgu a oedd yn eu galluogi i ennill ystod eang o

sgiliau. Roedd dodrefn a oedd yn addas i blant yn eu galluogi i symud o un gweithgaredd i'r llall yn rhydd heb orfod gofyn ymarferydd am gymorth.

Roedd plant o bob oedran, yn dibynnu ar eu lefel o ddatblygiad, yn cael eu hannog i fod yn annibynnol wrth ddefnyddio'r tŷ bach, ac roedd y plant iau yn cael eu cefnogi a'u hannog gyda goruchwyliaeth agos gan eu gweithwyr allweddol penodedig.

Caiff plant eu cefnogi i ddatblygu eu hannibyniaeth.

2. Gofal a Datblygiad

Crynodeb

Mae ymarferwyr yn adnabod y plant sydd dan eu gofal yn dda ac yn cadw'r plant yn ddiogel ac yn iach gyda'u gwybodaeth o ddatblygiad plant a diogelu. Mae ymarferwyr yn ymateb i anghenion unigol y plant yn llwyddiannus ac yn darparu amgylchedd cadarnhaol a meithringar ar gyfer plant o bob oedran i hyrwyddo eu datblygiad.

Ein canfyddiadau

2.1 Pa mor dda mae'r ymarferwyr yn cadw'r plant yn ddiogel ac yn iach?

Mae ymarferwyr yn cadw plant yn ddiogel ac yn iach yn effeithiol.

Roedd ymarferwyr yn hybu iechyd da'r plant mewn sawl ffordd. Roedd arferion hylendid da ar waith ac roedd ymarferwyr yn annog plant i ddod yn annibynnol. Er enghraifft, roedd popeth yn hygyrch yn yr ystafell ymolchi/tŷ bach. Sicrhaodd ymarferwyr fod y lleoliad yn lân a gwnaethant sychu'r byrddau rhwng pob cwrs amser cinio a rhwng pob sesiwn chwarae. Roeddent hefyd yn annog ac yn cefnogi plant i olchi eu dwylo yn ôl yr angen. Roedd ymarferwyr wedi mynychu hyfforddiant cymorth cyntaf pediatrig a hyfforddiant amddiffyn plant, ac roedd hyn yn rhoi'r wybodaeth i ymarferwyr ynghylch sut i ymateb i anghenion gofal iechyd a dealltwriaeth ynglŷn â sut orau i ymdrin ag unrhyw broblemau diogelu a allai godi. Yn ogystal, datgelodd dau o'r ffeiliau ymarferwyr a archwiliwyd eu bod wedi mynychu'r cyrsiau hyfforddiant canlynol: hylendid bwyd Lefel 2, epilepsi, diabetes a rhoi meddyginiaeth, a chodi a chario.

Roedd ymarferwyr yn gyfarwydd â'r dull archwilio rheoli heintiau ac yn cydymffurfio ag ef wrth newid cewynnau babanod. Rhoddwyd ystyriaeth i faterion hylendid a diogelu ac roedd y gwasanaeth yn ymlynu'n ogystal â'i bolisi newid cewynnau.

Mae anghenion iechyd, hylendid a diogelwch plant yn cael eu diwallu gan ymarferwyr, sy'n gymwys i ofalu amdanynt ac sy'n dilyn eu polisïau a'u gweithdrefnau'n dda.

2.2 Pa mor dda mae'r ymarferwyr yn rheoli rhyngweithio?

Mae'r ymarferwyr yn rheoli rhyngweithio'n dda ac maent yn fodelau rôl da i'r plant.

Roedd dau o'r plant iau yn yr ystafell plant bach wedi'u cynhyrfu gan fod un o'r plant am chwarae gyda thegan y plentyn arall. Cafodd y ddau blentyn eu cynhyrfu wrth iddynt dynnu ar y tegan a, phan ddechreuodd un plentyn grio, dechreuodd y llall. Cysurwyd y ddau blentyn gan ymarferydd ac fe'u hatgoffwyd eu bod yn ffrindiau a bod angen rhannu eu teganau a'u gemau. Ar ôl derbyn cofleidiadau gan yr ymarferydd, roedd y ddau blentyn yn hapus i barhau â'u chwarae ac fe'u gwelwyd funudau'n ddiweddarach wedi cymodi.

Mae ymarferwyr yn sicrhau bod ymddygiad y plant yn cael ei reoli mewn ffordd sy'n parchu eu hawliau ac yn hyrwyddo eu lles a'u datblygiad.

2.3 Pa mor dda mae'r ymarferwyr yn hybu chwarae, dysgu a datblygiad y plant, ac yn bodloni eu hanghenion unigol?

Mae ymarferwyr yn hybu chwarae, dysgu ac anghenion unigol plant yn dda gan eu bod yn gyfarwydd â hoffterau plant.

Gwnaeth ymarferwyr gynllunio gweithgareddau a oedd yn diddori pob plentyn a darparu profiadau dysgu a oedd yn datblygu sgiliau plant mewn meysydd gwahanol megis llythrennedd a rhifedd yn effeithiol. Er enghraifft, gwelsom ymarferwyr yn dysgu lliwiau, rhifau a geiriau Cymraeg mwy anodd, a oedd yn cefnogi ac yn annog eu datblygiad gwybyddol ac ieithyddol.

Gwelwyd ymarferwyr yn croesawu ac yn siarad â rhieni, a oedd yn brofiad cadarnhaol a chyfeillgar i bawb, a rhannwyd unrhyw wybodaeth bwysig. Cafodd ffeiliau dau o'r plant eu harchwilio a datgelwyd bod rhieni wedi cwblhau ffurflenni cofrestru a darparu manylion o unrhyw alergeddau, anghenion a hoffterau. Ynghyd â'r ffurflenni cofrestru a'r trafodaethau dyddiol gyda rhieni wrth rannu gwybodaeth ynghylch plant, mae hyn yn galluogi ymarferwyr i gael gafael ar y wybodaeth i ddarparu'r gofal gorau i blant o ran eu hanghenion, sy'n newid ac yn datblygu'n barhaus.

Siaradwyd â'r plant mewn modd sensitif ac roeddent yn buddio o ddull cynnes a gofalgar, ac roedd yr arfer hwn yn cefnogi plant yn eu hyder i chwarae a dysgu. Gwelsom fod ymarferwyr yn siarad â phlant mewn modd tyner, gan wrando ar eu safbwyntiau a’u parchu, ac ymateb yn garedig gyda sicrwydd geiriol a chyswllt llygaid. Gwnaed arsylwadau o'r plant a chwblhawyd llyfrynnau asesu a oedd yn cael eu cefnogi gan luniau a samplau o waith plant, a oedd wedi'u harddangos yn eu llyfrau unigol ac ar y waliau. Gwelwyd cydbwysedd da o weithgareddau a arweinir gan blant ac oedolion, megis paentio a gludo deunydd i blatiau papur i greu’r Arth Pudsey yn barod ar gyfer diwrnod Plant Mewn Angen.

Mae gan y plant gyfleoedd i chwarae a dysgu, ac mae eu hanghenion yn cael eu diwallu, sy'n cyfrannu at eu datblygiad emosiynol, corfforol, cymdeithasol, deallusol, ieithyddol a chreadigol.

3. Yr Amgylchedd

Crynodeb

Mae'r plant yn elwa ar amgylchedd lle gallant brofi amrywiaeth o weithgareddau chwarae a dysgu yn ogystal ag ardaloedd lle gallant gysgu ac ymlacio. Mae'r amgylchedd yn ddiogel tu fewn a thu allan.

Ein canfyddiadau

3.1 Pa mor dda mae arweinwyr yn sicrhau diogelwch yr amgylchedd?

Mae arweinwyr ac ymarferwyr yn sicrhau bod yr amgylchedd yn ddiogel ar gyfer y plant.

Gwnaeth arweinwyr ac ymarferwyr sicrhau bod y lleoliad yn ddiogel tu fewn a thu allan. Gwnaeth arweinwyr ac ymarferwyr gloi'r drysau ar ôl i bob plentyn gyrraedd trwy gydol y dydd a gwnaeth ymarferwyr gofnodi presenoldeb plant mewn llyfrau cofrestru ystafell chwarae unigol yn ogystal ag yn swyddfa'r arweinydd. Roedd hi'n ofynnol i'r arolygydd ddangos cerdyn adnabod er mwyn cael mynediad i'r lleoliad a gofynnwyd iddo lofnodi'r llyfr ymwelwyr. Roedd hyn yn dangos systemau cofnodi da a oedd yn hyrwyddo iechyd a diogelwch. Roedd plant yn gallu chwarae tu allan mewn ardal gaeedig o dan oruchwyliaeth agos ymarferwyr. Gwnaethom nodi bod diogelwch ar deithiau a rhagofalon arferol wedi cael eu cymryd i atal damweiniau posibl. Roedd yr amgylchedd corfforol yn ddiogel ac roedd yr holl adnoddau ac offer wedi derbyn asesiad risg er mwyn cael gwared ar unrhyw beryglon posibl, ac roedd asesiadau risg ar gyfer chwarae a throeon tu allan yn gynhwysfawr.

Mae arweinwyr yn sicrhau bod plant yn cael eu gofalu amdanynt a bod eu hanghenion yn cael eu diwallu mewn amgylchedd diogel.

3.2 Pa mor dda mae'r arweinwyr yn sicrhau addasrwydd yr amgylchedd?

Mae arweinwyr yn sicrhau bod yr amgylchedd yn addas ac yn ysgogol.

Roedd arweinwyr ac ymarferwyr wedi creu amgylchedd croesawgar a chyfeillgar ac roedd y waliau'n cael eu haddurno gyda gwaith celf a chrefft plant. Roedd yr holl ardaloedd tu mewn a thu allan yn lân ac yn cael eu cynnal a'u cadw mewn cyflwr addas, ac roedd ystafelloedd ar dymheredd priodol a chyda digon o le i'r plant gael archwilio.

Roedd Meithrinfa Ffalabalam yn dilyn egwyddorion y Cyfnod Sylfaen, sydd ar gyfer plant rhwng tair a saith mlwydd oed. Roedd cynllun a dyluniad yr ystafelloedd chwarae yn hyrwyddo annibyniaeth y plant yn naturiol i annog eu chwarae a'u profiadau dysgu. Roedd gwaith thematig plant wedi'i labelu'n glir a'i arddangos trwy gydol yr ystafelloedd, a oedd yn rhoi ymdeimlad o lwyddiant i'r plant yn eu creadigaethau eu hunain. Roedd yr ystafelloedd chwarae mawr ar gyfer babanod a phlant bach wedi cael eu rhannu’n ddwy ystafell a osodwyd fel ardal chwarae anniben ac ardal greadigol, i ddarparu amrywiaeth o gyfleoedd chwarae a oedd yn hyrwyddo chwilfrydedd plant i chwarae a dysgu. Roedd gan yr ystafell chwarae fawr ar gyfer y plant hŷn ddigon o le ar gyfer chwarae ac roedd dodrefn a oedd yn

addas i blant a oedd yn annog plant i archwilio a dilyn eu diddordebau heb orfod gofyn i ymarferwyr. Roedd toiledau a basnau ymolchi plant yn ddiogel, ac yn addas i'r plant er mwyn hyrwyddo annibyniaeth. Roedd gan arweinwyr ac ymarferwyr swyddfa eu hunain ar gyfer trafodaethau cyfrinachol gyda rhieni, gofalwyr neu weithwyr proffesiynol, ac ar gyfer toriadau cinio. Gwnaeth y gwasanaeth dderbyn sgôr hylendid bwyd o bump gan yr adran iechyd yr amgylchedd leol, sy'n hyrwyddo iechyd a datblygiad hylendid plant ymhellach.

Mae arweinwyr yn sicrhau bod plant yn derbyn gofal mewn amgylchedd addas lle y maent yn ddiogel ac mae eu hanghenion datblygol cyffredinol yn cael eu diwallu.

3.3 Pa mor dda mae arweinwyr yn sicrhau ansawdd yr adnoddau a'r offer?

Mae arweinwyr yn sicrhau bod adnoddau'n cael eu disodli pan maent yn dreuliedig a'u bod mewn cyflwr da ac yn lân.

Gwnaeth arweinwyr sicrhau bod ymarferwyr yn glanhau adnoddau'n rheolaidd ac maent yn ymwybodol o hysbysu'r arweinwyr pan fydd angen offer newydd. Gwnaeth arweinwyr sicrhau eu bod yn darparu adnoddau priodol sy'n addas i blant er mwyn diwallu anghenion plant unigol. Nododd arweinwyr fod gan y plant lais ynghylch pa eitemau a archebir yn ôl eu diddordebau ac i annog datblygiad.

Mae arweinwyr yn sicrhau bod gan y plant fynediad at ddodrefn, offer, teganau a deunyddiau sy'n briodol ac yn addas ar gyfer eu hanghenion.

4. Arweinyddiaeth a Rheolaeth

Crynodeb

Mae gan arweinwyr weledigaeth eglur ar gyfer y gwasanaeth lle y mae plant yn cael eu gwerthfawrogi. Mae'r datganiad o ddiben yn darparu llun cywir o'r gwasanaeth sy'n hyrwyddo ac yn cynnal gwelliannau a chanlyniadau da i blant, ac sy'n darparu'r wybodaeth sydd ei hangen ar rieni i wneud dewis gwybodus ynghylch gofal plant.

Ein canfyddiadau

4.1 Pa mor effeithiol yw'r arweinyddiaeth?

Mae arweinwyr yn dangos arweinyddiaeth a rheolaeth dda.

Roedd arweinwyr wedi sicrhau bod y datganiad o ddiben yn eglur ac yn gryno ac yn darparu'r wybodaeth sydd ei hangen ar rieni i wneud penderfyniad gwybodus ynglŷn â gofal plant. Roedd arweinwyr wedi cwblhau goruchwyliaeth ac arfarniadau ar gyfer ymarferwyr ac roedd y dogfennau hyn yn gynhwysfawr. Roedd hyn yn golygu bod anghenion hyfforddi parhaus ymarferwyr yn cael eu nodi ac yn gallu derbyn sylw mewn sesiynau goruchwylio un wrth un. Gwnaeth arweinwyr ein hysbysu bod polisïau a gweithdrefnau'n cael eu diweddaru'n rheolaidd ac yn cael eu rhannu gydag ymarferwyr yn ystod cyfarfodydd tîm. Roedd y cyfarfodydd hyn yn darparu cyfle i drafod unrhyw feysydd sydd angen eu gwella. Trafodwyd gydag arweinwyr am ystyried rhoi enwau plant wrth ymyl eu gweithwyr penodedig ar hysbysfwrdd lluniau'r ymarferwyr i alluogi rhieni i adnabod gweithiwr allweddol eu plentyn ar gyfer y diwrnod hwnnw/yr wythnos honno. Hefyd, awgrymwyd y dylent ystyried gosod cymwysterau a'r hyfforddiant a wnaed wrth ymyl lluniau'r ymarferwyr ar yr hysbysfwrdd staff/ymarferwyr.

Gwnaeth Meithrinfa Ffalabalam gyflawni ei chyfrifoldebau o dan Safonau'r Gymraeg trwy ddarparu 'cynnig gweithredol' ar gyfer yr iaith Gymraeg i blant a oedd yn dymuno siarad Cymraeg. Roedd pob arweinydd ac ymarferydd yn siarad Cymraeg a Saesneg. Roedd contract cytûn ar waith gyda'r rhieni, a oedd yn gosod y disgwyliadau am y gofal, yr amodau a'r telerau, y gweithgareddau a gynigir, a'r trefniadau busnes. Archwiliwyd dwy o ffeiliau'r plant. Canfuwyd bod ganddynt y wybodaeth angenrheidiol i ddarparu'r gofal gorau ar gyfer y plant, a oedd hefyd yn unol â'r Safonau Gofynnol Cenedlaethol ar gyfer Gofal Plant a Reoleiddir a'r rheoliadau.

Mae arweinwyr yn sicrhau bod anghenion plant yn cael eu diwallu a bod gan rieni'r wybodaeth ofynnol sydd ei hangen arnynt. Mae rhieni a'u plant yn buddio o wasanaeth trefnus sydd wedi'i gynllunio'n dda a lle y mae ymarferwyr yn deall eu swyddogaethau.

4.2 Pa mor effeithiol yw'r gwaith o hunanwerthuso a chynllunio ar gyfer gwella?

Mae arweinwyr yn effeithiol wrth hunanarfarnu a gwella'r gwasanaeth.

Roedd gan arweinwyr systemau effeithiol ar gyfer casglu safbwyntiau plant a rhieni'n rheolaidd er mwyn canfod y meysydd a oedd angen eu datblygu. Roedd adroddiad ansawdd gofal 2015/16 yn gynhwysfawr ac yn cyfeirio at nifer o welliannau i'r gwasanaeth dros y flwyddyn. Gwnaeth yr adroddiad amlygu meysydd a gafodd eu gwella a nodi datblygiad pellach er mwyn diwallu anghenion newidiol a datblygol y plant sy'n mynychu Meithrinfa Ffalabalam.

Trafodwyd gydag arweinwyr am ystyried gwneud tudalen Facebook Meithrinfa Ffalabalam yn ddiogel trwy gyfyngu mynediad y cyhoedd a dim ond rhoi caniatâd i rieni plant sy'n mynychu'r gwasanaeth weld y cynnwys llawn. Hefyd, gallent ystyried cael ffurflen caniatâd rhieni fwy manwl a phenodol mewn perthynas â chyhoeddi lluniau ar Facebook a/neu wefannau cyfryngau cymdeithasol eraill.

Mae'r plant a'u rheini'n elwa ar wasanaeth o safon sy'n cael ei fonitro'n effeithiol.

4.3 Pa mor effeithiol mae'r ymarferwyr, y staff ac adnoddau eraill yn cael eu rheoli?

Mae arweinwyr yn effeithiol wrth reoli ymarferwyr ac yn sicrhau eu bod yn cael eu cefnogi yn eu rolau.

Gwnaeth arweinwyr benodi ymarferwyr fel bod y cymarebau ymarferydd:plentyn yn uwch na'r Safonau Gofynnol Cenedlaethol ar gyfer Gofal Plant a Reoleiddir. Roedd arweinwyr wedi penodi ymarferwyr i amrediadau oedran plant gwahanol yn ôl profiad, cymwysterau a hoffterau ymarferwyr. Dywedodd ymarferwyr wrthym eu bod yn hapus iawn yn eu rolau a'u bod yn derbyn cefnogaeth dda ac effeithiol gan arweinwyr ar unwaith. Nododd ymarferwyr fod ganddynt ddigon o gyfleoedd i wneud hyfforddiant sy'n berthnasol i'w rolau ac mae'r thema hon yn rhan fawr o ethos y gwasanaeth.

Mae sesiynau goruchwylio a chyfarfodydd ymarferwyr misol yn darparu cyfle i drafod unrhyw faterion a meysydd sydd ag angen sylw a datblygiad.

Mae'r plant yn elwa oherwydd bod cymhareb yr oedolion i blant yn rhagori ar yr arfer gorau.

4.4 Pa mor effeithiol yw partneriaethau?

Mae gan arweinwyr bartneriaethau effeithiol.

Er enghraifft, mae gan arweinwyr ac ymarferwyr berthnasau da gyda rhieni er mwyn diwallu anghenion newidiol a datblygol plant.

Fe'n hysbyswyd gan arweinwyr bod y gwasanaeth yn gweithio'n agos gyda Choleg Menai a Phrifysgol Bangor ac yn derbyn myfyrwyr a oedd yn astudio gofal plant ar leoliadau gwaith yn rheolaidd er mwyn hyrwyddo eu dysgu a'u dealltwriaeth o'r pwnc. Rhannodd arweinwyr fod ganddynt gysylltiadau â nyrs epileptig er mwyn gallu diwallu anghenion plant yn eu gofal sydd ag epilepsi.

Nododd arweinwyr eu bod yn gweithio'n agos gyda rhieni a gweithwyr proffesiynol pan fo anghenion ychwanegol wedi cael eu nodi, er mwyn cael cyngor i sicrhau'r gefnogaeth orau ar gyfer y plant i’w galluogi i ddatblygu a gwneud cynnydd da.

Mae’r arweinwyr wedi datblygu partneriaethau effeithiol gyda'r gymuned sydd o fudd i'r plant.

5. Gwelliannau mae angen eu gwneud ac a argymhellir yn dilyn yr arolygiad hwn

5.1 Meysydd o ddiffyg cydymffurfio ers arolygiadau blaenorol

Dim

5.2 Meysydd o ddiffyg cydymffurfio a nodwyd yn yr arolygiad hwn

Dim

5.3 Argymhellion ar gyfer gwella

Trafodwyd yr argymhellion arfer da canlynol gyda'r arweinwyr:

- ystyried gwneud y dudalen Facebook yn fwy diogel trwy gyfyngu mynediad y cyhoedd a dim ond rhoi caniatâd i rieni plant sy'n mynychu'r gwasanaeth weld y cynnwys llawn;
- ystyried llunio ffurflen caniatâd rhieni fwy manwl a phenodol mewn perthynas â chyhoeddi lluniau ar Facebook neu wefannau cyfryngau cymdeithasol eraill;
- ystyried rhoi enwau plant wrth ymyl eu gweithwyr penodedig ar hysbysfwrdd lluniau'r ymarferwyr i alluogi rhieni i nodi gweithiwr allweddol eu plentyn ar gyfer y diwrnod hwnnw/yr wythnos honno;
- ystyried gosod cymwysterau a'r hyfforddiant a wnaed wrth ymyl lluniau'r ymarferwyr ar yr hysbysfwrdd staff/ymarferwyr.

6. Sut y gwnaethom gynnal yr arolygiad hwn

Cynhaliwyd yr arolygiad hwn ar ddydd Mercher, 16 Tachwedd 2016 rhwng 8.30am a 3pm.

- Cynhaliodd un arolygydd ymweliad dirybudd â'r gwasanaeth.
- Ystyriodd y wybodaeth am gofrestriad y gwasanaeth ac unrhyw hysbysiadau a dderbyniwyd.
- Gwnaeth arsylwi ar ofal y rhan fwyaf o'r plant trwy gydol y dydd.
- Siaradodd â'r holl ymarferwyr a'r arweinwyr ar y safle.
- Edrychodd ar amrywiaeth o gofnodion, gan gynnwys ffeiliau ymarferwyr a ffeiliau plant.
- Archwiliodd yr holl ardaloedd a ddefnyddir gan y plant; a
- Siaradodd â rhiant a oedd yn casglu eu plentyn o'r gwasanaeth.

Ceir gwybodaeth bellach am yr hyn yr ydym yn ei wneud ar ein gwefan www.aggcc.org.uk

Ynglŷn â'r gwasanaeth

Y math o ofal a ddarperir	**Gofal Dydd Llawn**
Unigolyn Cyfrifol	**Bethan Griffiths** **Menna Jones**
Person â Gofal	**Bethan Griffiths – Menna Jones**
Uchafswm y lleoedd a gofrestrwyd	**116**
Ystod oedran y plant	**0 – 12 mlwydd oed**
Oriau agor	**7.30am – 6pm**
Iaith weithredol y gwasanaeth	**Cymraeg**
Dyddiad arolygiad blaenorol AGGCC	**23 Mawrth 2015**
Dyddiad yr ymweliad arolygu hwn	**16 Tachwedd 2016**
Ydy hwn yn wasanaeth Dechrau'n Deg?	**Nac ydy**
Ydy'r gwasanaeth hwn yn darparu cynnig gweithredol y Gymraeg?	**Ydy**
Gwybodaeth ychwanegol:	